Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Dderwen

Heol Spurrell
Caerfyrddin
SA31 1TG

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Dderwen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Dderwen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 358 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 273 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 37 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 4.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 63.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 08/03/2025 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 28/03/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 15/06/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth dros dro yn rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol, gyda ffocws pwrpasol ar gyfoethogi profiadau dysgu a chefnogi datblygiad personol bob disgybl. Mae'r weledigaeth hon wedi'i rhannu'n llwyddiannus â staff, rhieni a'r gymuned, gan feithrin ymdeimlad cryf o bwrpas ar y cyd. Gyda chefnogaeth tîm ymroddgar, mae arweinwyr wedi meithrin amgylchedd gofalgar sy'n adlewyrchu natur Gymreig yr ysgol ac yn cyfrannu at safonau uchel o ymddygiad ac ymrwymiad at ddysgu ymhlith bron bob disgybl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg yn effeithiol ac yn defnyddio'r iaith yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau. Wrth symud drwy'r ysgol, maent yn cryfhau eu medrau darllen ac ysgrifennu yn gyson ac yn mynegi eu syniadau'n llwyddiannus. Mae medrau mathemategol a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth rifedd yn bwrpasol wrth drin data a datrys problemau, tra bod eu defnydd o dechnoleg yn cefnogi medrau cyfathrebu a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol. Mae bron bob disgybl yn dangos dealltwriaeth dda o sut i ddefnyddio technoleg yn ddiogel ac yn gyfrifol.

Mae staff yn cyflwyno cwricwlwm sy'n cynnig ystod gyfoethog o brofiadau, yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn cefnogi datblygiad cadarn yn eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Yn yr arferion gorau, mae'r gweithgareddau yn herio disgyblion yn fwriadus i wneud cynnydd cadarn ac mae athrawon yn dechrau defnyddio adborth yn fwy effeithiol i gefnogi disgyblion i ddeall eu cryfderau a'r camau nesaf yn eu dysgu yn briodol. Er hyn, nid yw'r arferion mwyaf effeithiol hyn wedi gwreiddio'n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol er mwyn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth sy'n eu cefnogi i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol pwrpasol wedi cryfhau ansawdd y ddarpariaeth, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu cymorth effeithiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cysoni’r arferion addysgu mwyaf effeithiol ar draws yr ysgol.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r pennaeth dros dro wedi sefydlu gweledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a hyrwyddo lles a datblygiad bob disgybl. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda staff, rhieni a'r gymuned ehangach, gan hyrwyddo diwylliant lle mae pawb yn cyfrannu'n bwrpasol at ei gwireddu.

Mae gan y pennaeth dros dro ddisgwyliadau uchel ohoni'i hun, y staff a'r disgyblion, sy'n cyfrannu'n effeithiol at greu ethos gofalgar a Chymreig ar draws yr ysgol. Caiff ei chefnogi'n dda gan dîm o staff ymroddgar sy'n cydweithio'n ddiwyd i ddarparu profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn meithrin eu chwilfrydedd naturiol yn effeithiol. O ganlyniad, mae ymddygiad ac agweddau at ddysgu bron bob disgybl yn rhagorol.

Bron heb eithriad, mae staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol, sy'n cyfrannu'n gryf at ddatblygiad medrau cyfathrebu'r disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando a siarad cadarn ac yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau. O oedran cynnar, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol wrth feithrin eu dealltwriaeth o lythrennau, seiniau a geiriau. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus ac aeddfed sy'n defnyddio goslef a mynegiant yn fedrus i gyfleu ystyr a chreu naws briodol wrth ddarllen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ysgrifenwyr hyderus sy'n mynegi eu hunain yn llwyddiannus ar draws ystod o ffurfiau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ffurfio llythrennau ac yn ysgrifennu geiriau syml yn fedrus. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol at wahanol ddibenion, er enghraifft wrth greu adroddiadau fel rhan o'u ymchwiliadau gwyddoniaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemateg a rhifedd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn bwrpasol. Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu gan lunio a dehongli graffiau, dadansoddi data a datrys problemau yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio offer digidol yn hyderus i gefnogi eu dysgu. Maent yn cymhwyso'u medrau yn gadarn wrth gyfathrebu, ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio meddalwedd codio yn llwyddiannus i greu gêm 'carreg, papur, siswrn' digidol. Mae bron bob disgybl yn deall pwysigrwydd gweithio'n ddiogel ar y we ac yn defnyddio technoleg yn gyfrifol fel rhan o'u dysgu.

Mae athrawon yn cydweithio’n effeithiol i gynllunio cwricwlwm perthnasol sy’n ennyn ac yn cynnal diddordeb bron bob disgybl. Maent yn darparu profiadau dysgu cyfoethog, gan gynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu yn yr amgylchedd allanol. Mae eu dulliau holi pwrpasol yn adeiladu’n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn ymestyn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth ymhellach. O ganlyniad, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel a’r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn ac yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae disgwyliadau uchel gan staff ac maent yn cynllunio gweithgareddau’n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn herio disgyblion yn briodol. Er hyn, nid yw’r arferion hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn dechrau defnyddio adborth yn fwy effeithiol i gefnogi disgyblion i adnabod eu cryfderau a'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r gwaith hwn yn ei ddyddiau cynnar ac nid yw'r arferion wedi gwreiddio'n ddigon cyson ar draws yr ysgol hyd yma.

Mae staff yn annog disgyblion i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol yn llwyddiannus. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddatblygu medrau arwain priodol a chymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau. Er enghraifft, maent wedi dylanwadu’n gadarnhaol ar y ddarpariaeth i hyrwyddo mwynhad a chariad at ddarllen ar draws yr ysgol.

Mae’r pennaeth dros dro wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer monitro ansawdd y ddarpariaeth a medrau’r disgyblion. Mae’n defnyddio ystod eang o dystiolaeth i adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu. Yn ogystal, mae arweinwyr meysydd dysgu a phrofiad ac athrawon yn cydweithio’n effeithiol wrth graffu ar waith disgyblion a chynnal arsylwadau ar yr addysgu a’r dysgu. Mae’r trefniant hwn yn sicrhau bod gan staff ymwybyddiaeth glir o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella ac yn rhoi gwelliannau ar waith yn amserol.

Mae arweinwyr yn creu a chynnal diwylliant cadarnhaol i hybu, datblygu a chefnogi dysgu proffesiynol staff, sy’n cael effaith fuddiol ar yr amgylchedd dysgu a medrau disgyblion.

### Ciplun: Effaith gadarnhaol dysgu proffesiynol ar yr amgylchedd dysgu a medrau disgyblion

O ganlyniad i ddysgu proffesiynol bwriadus, mae staff y blynyddoedd cynnar wedi cryfhau eu dealltwriaeth gadarn o sut i gynllunio profiadau dysgu ysgogol gan ystyried egwyddorion y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir. Mae hyn wedi eu galluogi i greu amgylchedd dysgu ysgogol a chyfoethog sy’n ennyn chwilfrydedd y disgyblion ac yn eu hannog i archwilio a dysgu yn gynyddol annibynnol. Yn ogystal, mae gweithgareddau wedi’u cynllunio’n fwriadus i ddatblygu medrau disgyblion yn gelfydd ar draws y meysydd dysgu, sy’n cyfrannu at gynnydd cryf a pharhaus yn eu dysgu.

Mae’r llywodraethwyr yn gweithredu’n effeithiol. Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cynnal ymweliadau pwrpasol i werthuso effaith y ddarpariaeth ar

safonau a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Agwedd arbennig o waith y llywodraethwyr yw'r ffordd y maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i hybu a chefnogi gwelliannau. Er enghraifft, maent wedi cynnig sylwadau defnyddiol ar y ffordd y mae'r ysgol yn adrodd ar gynnydd disgyblion i rieni. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi datblygu trefniadau adrodd mwy effeithiol sy'n rhoi dealltwriaeth gliriach i rieni o gynnydd a datblygiad eu plant.

Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn cyfrannu'n werthfawr at fywyd yr ysgol. Drwy drefnu ystod o weithgareddau llwyddiannus, fel disgo Santes Dwynwen a ffair menter a busnes ar y cyd â'r disgyblion hynaf, maent yn codi arian i gyfoethogi'r ddarpariaeth a'r adnoddau sydd ar gael i'r disgyblion. Er enghraifft, maent wedi ariannu cwrs antur, sy'n ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol yn effeithiol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y trefniadau ar gyfer rheoli cyllid yr ysgol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/08/2026